Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Idris
# Dolgellau
# Gwynedd
# LL40 1HY

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Bro Idris

Mae Ysgol Bro Idris yn ysgol ddwyieithog ar gyfer disgyblion 3-16 oed sy'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Gwynedd. Agorwyd yr ysgol fel Ysgol Bro Idris ym mis Medi 2017 yn dilyn cyfuno Ysgol Y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Gynradd Brithdir, Ysgol Ieuan Gwynedd, Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Gynradd Llanelltyd, Ysgol Friog, Ysgol Y Clogau ac Ysgol Ganllwyd.

Ar hyn o bryd, mae 581 o ddisgyblion yn yr ysgol gyda 352 o oedran cynradd a 229 o oedran uwchradd. Mae'r ysgol yn gwasanaethu tref Dolgellau a phentrefi ardal eang o'i chwmpas.

Mae 8.8% o'r disgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 16.4% ar gyfer ysgolion uwchradd ac 18% ar gyfer ysgolion cynradd. Nid oes unrhyw ddisgybl yn byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n yn gymwys i dderbyn cefnogaeth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol neu'n dod o gefndir lleiafrif ethnig. Mae dros hanner y disgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl ond mae bron pob disgybl yn deall yr iaith. Mae gan 13.8% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 22.9%. Mae tua 1.2% o ddisgyblion ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn 2016 ar gyfer agoriad yr ysgol yn 2017. Mae dirprwy bennaeth, tri phennaeth ffês a chydlynwyr anghenion addysgol arbennig yn cwblhau'r uwch dîm rheoli.

Mae'r ysgol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill ar hyn o bryd i fwrw ymlaen â datblygiadau sy'n ymwneud â diwygio addysg yng Nghymru.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Bro Idris yn gymuned gynhwysol a chroesawgar lle mae darpariaeth ar gyfer lles disgyblion yn ganolog i holl waith yr ysgol.  O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac maent yn gyfeillgar a gofalgar o'i gilydd ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch a chwrteisi.

Mae gweledigaeth glir y pennaeth wedi ei seilio'n gadarn ar 'greu ysgol sy'n sicrhau fod pob dysgwr yn hapus a diogel ac yn cyrraedd ei lawn botensial yn addysgol a chymdeithasol'.  Mae arweinwyr a'r staff yn cydweithio'n llwyddiannus i sefydlu darpariaeth flaengar ar draws ardal eang, ac i greu ethos o un ysgol.

Rhwng y cyfnod sylfaen a diwedd cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn datblygu eu medrau yn llwyddiannus.  Fodd bynnag, erbyn diwedd cyfnod allweddol 4, nid yw disgyblion yn arddangos medrau llythrennedd, rhifedd na thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) sy'n ddisgwyliedig o'u hoedran a'u gallu.  Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer y medrau yn cael ei chydlynu'n ddigon effeithiol rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu gwreiddio'n gadarn ac, yn gyffredinol, mae athrawon yn darparu profiadau gwerthfawr i'r disgyblion.  Serch hynny, nid yw ansawdd yr addysgu yn gyson uchel ar draws yr ysgol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Codi safonau, yn arbennig ar gyfer disgyblion oedran uwchradd

A2 Datblygu medrau disgyblion ar draws yr ysgol trwy gynllunio cydlynus

A3 Gwella ansawdd yr addysgu gyda sylw penodol i ddiwallu anghenion pob disgybl, yn arbennig ar gyfer disgyblion oedran uwchradd a'r disgyblion mwy abl

A4 Gwella arweinyddiaeth er mwyn cryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Ar fynediad i'r ysgol yn y dosbarth derbyn, mae llawer o ddisgyblion yn arddangos medrau llythrennedd a rhifedd sy'n ddisgwyliedig o'u hoedran.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da gan ddatblygu eu medrau i lefel briodol i'w hoedran. Yn y cyfnodau allweddol dilynol, mae llawer yn gwneud cynnydd boddhaol ac ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Yn gyffredinol, mae llawer yn adalw gwybodaeth flaenorol yn briodol gan gymhwyso'r wybodaeth i sefyllfaoedd newydd, er enghraifft cofio stori 'Eira'r Gaeaf' a datblygu syniadau am gymeriadau o hynny.

O oed cynnar, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n ofalus ar yr athro ac yn arddangos parch tuag at eu cyfoedion wrth wrando ar eu cyfraniadau. Maent yn caffael iaith lafar a thafodiaith gyfoethog yn fuan. Mae llawer yn y cyfnod sylfaen yn ymateb i gwestiynau gyda hyder ac mae ychydig yn ymgymryd yn llwyddiannus â rôl arweinydd mewn grŵp trafod gan gynnig brawddegau addas, er enghraifft i ddisgrifio cymeriadau 'Gwlad y Rwla'. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn siarad yn fedrus yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac ar oedolion, gan drafod gyda'u partner a chynnal ffocws ar eu gwaith. Enghraifft dda o hyn yw'r trafodaethau rhwng 'partneriaid parablu' ble mae bron pob un yn cyfrannu'n werthfawr i drafodaeth ar feini prawf llwyddiant eu tasg.

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion oedran uwchradd yn gwrando'n ofalus ac yn trafod gwaith yn aeddfed. Ar y cyfan, mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn dda ar lafar yn y Gymraeg a'r Saesneg, ond ychydig iawn o ddisgyblion sy'n llwyddo i gynnig atebion cynhwysfawr. Gwna'r mwyafrif ddefnydd cywir o dermau pynciol wrth ymateb i'r athro, er enghraifft wrth drafod adweithedd metelau gyda dŵr. Mae lleiafrif yn trafod eu gwaith yn effeithiol mewn grwpiau gan wneud cyfraniadau gwerthfawr. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn dawedog iawn mewn gwersi.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau darllen o'u man cychwyn yn llwyddiannus. Er enghraifft, yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn darllen a dehongli testun i wneud llun o Rala Rwdins. Mae llawer o'r disgyblion hyn yn darllen o lyfr addas i'w gallu gyda chywirdeb cynyddol gan ddefnyddio amrywiaeth briodol o strategaethau perthnasol. Ar frig cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn gywir yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn darllen ar goedd gyda rhuglder a mynegiant cywir gan gymryd sylw o atalnodi. Maent yn llwyddo i drafod gwahanol awduron yn gelfydd gan fynegi barn a rhesymu eu hatebion. Mae llawer o ddisgyblion oedran uwchradd yn defnyddio medrau sgimio a sganio yn llwyddiannus i ddarganfod gwybodaeth. Mae llawer yn datblygu medrau darllen priodol wrth, er enghraifft, adnabod technegau a nodweddion arddull mewn testun. Maent yn darllen cyfarwyddiadau yn hyderus ac yn llwyddo i barhau â'r gwaith heb gymorth ychwanegol yr athro. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw uwch fedrau darllen disgyblion wedi datblygu'n ddigonol er mwyn dehongli a chanfod ystyron ymhlyg mewn testunau yn effeithiol.

Mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda o oedran cynnar gan gynnwys ysgrifennu'n estynedig. Gwna disgyblion y cyfnod sylfaen ddefnydd da o ansoddeiriau ac mae llawer yn ysgrifennu i wahanol bwrpasau, gan gychwyn ystyried y darllenwr. Mae gan ychydig o'r disgyblion hyn ddealltwriaeth gref o reolau atalnodi. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu'n rhugl mewn brawddegau cydlynus ac yn defnyddio ystod dda o ansoddeiriau wrth ysgrifennu cardiau Nadolig.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn ysgrifennu'n ffeithiol yn llwyddiannus mewn gwahanol gyd destunau, er enghraifft wrth gynhyrchu pamffled gwybodaeth am Ffrainc. Mae llawysgrifen ychydig o ddisgyblion oedran cynradd yn flêr ac nid ydynt yn cyflwyno eu gwaith yn ddigon gofalus. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn briodol gan strwythuro eu gwaith yn addas. Maent yn llwyddo i fynegi barn gan ddefnyddio a dangos dealltwriaeth dda o wahanol arddulliau fel defnyddio iaith berswadiol a chwestiynau rhethregol.

Yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, mae llawer yn arddangos safon dda o atalnodi a pharagraffu. Maent yn hyderus yn eu defnydd o eirfa bynciol allweddol. Mae'r mwyafrif yn ysgrifennu'n estynedig yn briodol ac yn llwyddo i strwythuro eu gwaith yn addas gydag ystyriaeth o'r gynulleidfa, er enghraifft wrth ysgrifennu blog ar-lein am effeithiau bwlio. Yn gyffredinol, mae ganddynt afael da ar gystrawen yn y Gymraeg ac maent yn defnyddio geirfa addas wrth wneud cymariaethau a dehongliadau syml. Mae ychydig o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth gadarn o dechnegau effeithiol i greu naws ac awyrgylch fel mewn stori arswyd yn eu gwersi Saesneg. Yn gyffredinol, nid oes gan ddisgyblion oedran uwchradd eirfa ddigon eang na gafael digon cadarn ar idiomau i godi lefel eu gwaith i safon uwch.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu'n gadarn. Maent yn hyderus wrth fesur, trefnu rhifau a dilyn patrymau. Mae llawer yn defnyddio eu medrau rhifedd i ddehongli data yn llwyddiannus, er enghraifft wrth greu graff bar a'i labelu ac ymateb i gwestiynau sy'n deillio o'r graff. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau mewn gweithgareddau mwy cymhleth, er enghraifft creu graffiau llinell, cyfrifo calorïau mewn bwydydd a defnyddio graddfa ar fap. Mae mwyafrif o ddisgyblion o oedran uwchradd yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol ar draws ychydig o bynciau. Er enghraifft, yn y gwersi dyniaethau, maent yn dehongli cyfesurynnau lledred a hydred, ac mewn gwyddoniaeth, maent yn casglu data arbrawf, llunio siart cylch ac yn eu dehongli'n gywir. Yn gyffredinol, mae ganddynt y medrau angenrheidiol i ddatrys problemau rhifyddol syml fel cyfrifo buanedd a chyfraddau newid arian.

Mae disgyblion oedran cynradd yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn gwneud defnydd pwrpasol o TGCh i gyfuno llun, testun a newid maint a lliw ffont. Maent yn datblygu medrau meddwl a datrys problemau yn dda trwy lywio tegan rhaglenadwy yn bwrpasol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau TGCh yn hyderus i gefnogi eu dysgu ar draws y meysydd cwricwlaidd. Mae llawer yn datblygu eu medrau creadigol yn llwyddiannus i greu tudalen gwefan ddeniadol. Yn ogystal, mae disgyblion yn defnyddio technoleg sgrin werdd yn fedrus i efelychu sylwebaeth ar gêm rygbi. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae llawer yn

defnyddio prosesydd geiriau yn dda i lunio llythyrau gan ddefnyddio offer o fewn y rhaglen i wirio iaith a chyfieithu yn bwrpasol.

Mae disgyblion oedran uwchradd yn defnyddio eu medrau TGCh yn briodol mewn ychydig bynciau ar draws y cwricwlwm. Mae’r mwyafrif yn defnyddio a chymhwyso rhaglenni yn llwyddiannus i greu cyflwyniadau, dogfennau a gwaith cwrs, er enghraifft i gynhyrchu gwaith ysgrifenedig ar e-bost yn Saesneg ac i gyflwyno eu gwaith tystysgrif her sgiliau. Fodd bynnag, nid yw medrau TGCh disgyblion oedran uwchradd yn adeiladu’n ddigonol ar yr hyn a ddatblygwyd yng nghyfnod allweddol 2.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn foddhaol pan gânt y cyfle. Er enghraifft, yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau a rheolau mathemategol yn llwyddiannus i ymateb i dasg ‘Rhif y dydd’. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn arddangos medrau creadigol priodol yn y gwersi, er enghraifft wrth efelychu gwaith arlunwyr Cymreig a chael llwyddiant mewn cystadlaethau celf a chrefft mewn Eisteddfodau lleol a chenedlaethol.

Ers sefydlu’r ysgol, yn gyffredinol, nid yw perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 wedi cymharu’n dda ag ysgolion tebyg. Yn 2019, mae’r deilliannau yn is na’r hyn sy’n ddisgwyliedig ar draws y dangosyddion ac mae perfformiad yn y dystysgrif her sgiliau yn is nag ysgolion tebyg. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dilyn cwrs Cymraeg iaith gyntaf hyd at ddiwedd cyfnod allweddol 4. Mae dros hanner yn llwyddo i ennill cymhwyster lefel 2.

Ar ddiwedd eu hamser yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cychwyn ar addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn y gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn gyfeillgar a gofalgar o’i gilydd ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch a chwrteisi. Mae disgyblion hynaf yr ysgol yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i fentora rhai iau, er enghraifft wrth iddynt ymweld â dosbarthiadau cyfnod allweddol 2 i gyfrannu at sesiynau addysg bersonol gan gyflwyno gweithgareddau yr oeddent wedi cynllunio eu hunain.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn barod i ddysgu ar ddechrau gwersi ac maent yn symud yn drefnus rhwng gwahanol wersi a gweithgareddau. Mae llawer yn ymroi i dasgau’n gyflym, yn dyfalbarhau yn ddiwyd ac yn arddangos agwedd gadarnhaol at eu dysgu. Maent yn canolbwyntio’n llwyddiannus yn y gwersi gydag enghreifftiau cryf o ddisgyblion yn gwneud hynny am gyfnodau estynedig. Yn yr arferion gorau, dangosant wydnwch wrth wynebu heriau yn y gwaith ac maent yn ymfalchïo yn yr egwyddor o ‘ddal ati’. Enghraifft benodol o hyn yw disgyblion yn y dosbarth derbyn yn dyfalbarhau yn ddiflino wrth blicio tatws a moron i wneud cawl i ‘Rala Rwdins’.

Ar draws y safleoedd, mae llawer o ddisgyblion yn gweithio’n bwrpasol gyda phartner ac mewn grwpiau, er enghraifft wrth werthuso gwaith ei gilydd. Yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn canolbwyntio a chadw ar dasg yn dda, er enghraifft wrth ailadrodd stori. Ar draws y safleoedd cynradd, mae gallu disgyblion i weithio’n annibynnol yn y gwahanol ardaloedd dysgu yn gryfder. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn

meddu ar agwedd iach at ddysgu gan weithio'n fuddiol a chynhyrchiol mewn parau, er enghraifft i baratoi cyflwyniad ar rinweddau ymarfer corff. Yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, mae llawer yn cydweithio'n dda, er enghraifft yn eu gwersi Ffrangeg wrth ddisgrifio nodweddion corfforol anghenfil i'w gilydd.

Mae'r disgyblion sydd yn rhan o amrywiol gynghorau yn ymgymryd â'u rolau arweinyddiaeth gyda balchder. Pan gânt gyfle, mae disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar waith a bywyd yr ysgol. Er enghraifft, maent wedi dylanwadu'n fuddiol ar agweddau o bolisi ymddygiad yr ysgol. Yn ychwanegol, mae disgyblion wedi adnabod bod defnydd o boteli dŵr yn y ffreutur yn niweidiol i'r amgylchedd ac wedi newid y drefn i ddarparu cwpanau a jygiau yn eu lle. Fodd bynnag, nid yw gwaith y cynghorau hyn wedi dylanwadu'n ddigonol ar feysydd sylfaenol fel yr addysgu.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd cadw'n heini. Maent yn siarad yn wybodus am yr angen i fwyta'n iach ac i yfed digon o ddŵr. Mae llawer yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwerthfawr sydd yn cyfrannu at eu ffitrwydd. Maent yn manteisio ar gyfleoedd i fynychu ystod briodol o weithgareddau all-gwricwlaidd, fel rygbi, pêl-rwyd a phêl-droed. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod sut mae cadw'n ddiogel ar y we.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae rhan fwyaf o athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn meithrin perthynas waith fuddiol gyda nhw. Mae ganddynt wybodaeth bynciol dda. Maent yn egluro a chyfarwyddo'n glir wrth gyflwyno nodau ac amcanion gan osod meini prawf llwyddiant pwrpasol i dasgau.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio profiadau sy'n ennyn diddordeb ac yn ysgogi'r dysgu. Er enghraifft, yng nghyfnod allweddol 4, mae'r gwersi yn cynnwys trafodaethau gwerthfawr ar themâu cyfoes fel pryder cymdeithasol. Mae llawer o athrawon yn gwneud defnydd o adnoddau addas i gynorthwyo'r addysgu ac yn creu amgylchedd ysgogol lle y gall disgyblion ddysgu'n gynhyrchiol. Maent yn cynnig cefnogaeth ac anogaeth fuddiol i ddisgyblion wrth iddynt weithio. Mae hyn yn gryfder amlwg yn y cyfnod sylfaen lle mae athrawon yn defnyddio caneuon megis 'Dal Ati' sy'n sbarduno disgyblion i ddyfalbarhau mewn gweithgareddau.

Mae gan fwyafrif yr athrawon ddisgwyliadau uchel o ran cyfranogiad disgyblion. Maent yn cynllunio tasgau a gweithgareddau buddiol, gan gynnwys rhai sy'n cefnogi dysgu'r disgyblion llai galluog i sicrhau cynnydd yn eu gwybodaeth bynciol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw athrawon yn sicrhau bod her ddigonol er mwyn ymestyn disgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl. Yn yr achosion hyn, maent hefyd yn gosod gormod o dasgau byrion. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfle i fyfyrio ar eu gwaith a datblygu ystod ehangach o fedrau, fel uwch fedrau darllen neu ysgrifennu mewn cyd-destunau amrywiol. Mae llawer o athrawon yn cylchu'r dosbarth yn gan gynnig cymorth a chefnogaeth fuddiol i'w disgyblion. Maent yn defnyddio cwestiynu'n effeithiol i wirio dealltwriaeth ac i sicrhau cyfranogiad da. Mae lleiafrif o athrawon yn defnyddio cwestiynu'n effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn meddwl yn ddyfnach ac yn datblygu medrau datrys problemau cadarn. Mae llawer o athrawon yn rhoi sylwadau buddiol ar waith disgyblion gyda chyngor gwerthfawr ar sut i wella'u gwaith. Yn gyffredinol, mae athrawon yn sicrhau yn briodol fod disgyblion yn ymateb i sylwadau.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion y rhan fwyaf o'r disgyblion. Yng nghyfnod allweddol 4, ceir ystod briodol o gymwysterau academaidd a galwedigaethol. Trwy bartneriaeth â'r coleg addysg bellach lleol, mae'r ysgol yn llwyddo i ehangu'r dewis o gyrsiau sy'n caniatáu i ddisgyblion astudio pynciau fel iechyd a gofal, peirianneg a chyfrifiadureg. Mae'r ysgol yn addasu'r cwricwlwm yn briodol er mwyn ymateb i anghenion disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu sydd angen datblygu medrau cymdeithasol.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi'u gwreiddio'n gadarn ac mae'r ysgol yn cynnig cydbwysedd da o brofiadau gwerthfawr i'r disgyblion hyn. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n llwyddiannus o'r cyfnod sylfaen i gyfnod allweddol 2 ac wedi'i strwythuro'n briodol i gyd-fynd ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru. Yn ogystal, mae ychydig o bynciau yng nghyfnod allweddol 3 wedi cynllunio profiadau dysgu addas ar y cyd. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 7 ac 8 yn astudio crefydd, hanes a daearyddiaeth Japan yn eu gwersi dyniaethau ac felly'n cysylltu'r dysgu'n fwy effeithiol i sicrhau dealltwriaeth lawn o'r thema.

Rhoddir profiadau dysgu gwerthfawr i ddisgyblion Blwyddyn 6 fynychu'r prif safle yn wythnosol i gael gwersi gwyddoniaeth, Ffrangeg, addysg gorfforol a dylunio a thechnoleg gan athrawon pwnc. Yn ogystal, mae athrawon celf a cherddoriaeth yn darparu gwersi ar y safleoedd cynradd. Nid yw arweinwyr yn arfarnu ac adolygu'r cwricwlwm yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn ddigon rheolaidd i ddiwallu dymuniadau disgyblion, yn enwedig y disgyblion mwy abl.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant a threftadaeth Cymreig a hanes lleol yn y mwyafrif o feysydd dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion yn astudio chwedlau lleol am y Gwylliaid ac yn dysgu am fywyd Owain Glyndwr yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd gwerthfawr o lenorion lleol fel Mair Tomos Ifans a Bethan Gwanas sy'n cynnal gweithdai aml i sôn am eu bywyd a'u gwaith.

Mae ystod briodol o weithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn addas. Er enghraifft, mae'r ysgol yn trefnu taith ddiwylliannol werthfawr i Lydaw i hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o'r cyswllt Celtaidd gyda Chymru.

Yn y blynyddoedd cynnar a chychwyn cyfnod allweddol 2, cynllunnir profiadau gwerthfawr ble mae'r medrau yn cael eu plethu yn ofalus i'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid yw trefniadau i sicrhau bod disgyblion yn gwneud datblygiad cynyddol yn eu medrau yn y cyfnodau allweddol eraill yn ddigon cadarn. Yn rhy aml, ar draws yr ysgol, nid yw disgwyliadau'n ddigon uchel i sicrhau bod y disgyblion mwy abl yn gwneud y cynnydd disgwyliedig. Ar y cyfan, mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth briodol i ddisgyblion sydd â medrau llythrennedd a rhifedd gwan trwy waith anogwyr dysgu a staff cymorth eraill.

Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh yn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh yng nghyfnod allweddol 3 a 4 yn gyfyngedig.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn sefyll

arholiad TGAU iaith gyntaf Cymraeg. Mae trefniadau buddiol i ddisgyblion y safleoedd cynradd ddatblygu'u medrau cymdeithasu'n y Gymraeg trwy'r Clybiau Cymraeg Ysgol Bro Idris (CYBI) wythnosol. Yn ogystal, mae'r cyngor iaith Gymraeg yn hybu manteision dwyieithrwydd yn effeithiol, er enghraifft trwy greu ffilm fer am sut mae'r iaith Gymraeg yn cefnogi byd busnes yn nhref Dolgellau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwella**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chroesawgar lle mae darpariaeth ar gyfer lles disgyblion yn ganolog i'w gwaith. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr nac athrawon yn gwneud defnydd digon cadarn o wybodaeth sydd ar gael i fodloni anghenion pob disgybl. Yn ogystal, mae cyfleoedd i ddisgyblion leisio'u barn am agweddau pwysig o waith yr ysgol yn gyfyngedig.

Gwneir defnydd hynod effeithiol o'r 'Hafan', sef canolfan sy'n rhoi cynhaliaeth werthfawr i ddisgyblion oedran uwchradd sydd ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol. Mae gan staff yr Hafan adnabyddiaeth dda o anghenion y disgyblion ac maent yn rhoi gofal a chynhaliaeth bwrpasol i ddisgyblion ar draws yr ysgol. Mae hyn yn nodwedd gref o waith yr ysgol sy'n cael effaith gadarnhaol ar hyder, ymddygiad ac agweddau disgyblion at eu dysgu. Mae gan yr ysgol bartneriaeth lwyddiannus â nifer o asiantaethau sy'n darparu cefnogaeth arbenigol i unigolion yn unol â'u hanghenion, ynghyd â rhoi hyfforddiant gwerthfawr i staff. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at greu'r ethos gofalgar a chynhwysol o fewn yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn addas. Mae'r athrawon ac arweinwyr yn defnyddio prosesau monitro ac olrhain eu cynnydd yn briodol er mwyn cynllunio'r camau nesaf ac i ddarparu ymyraethau addas. Mae'r cydlynwyr addysg anghenion arbennig yn monitro cynnydd disgyblion sy'n derbyn ymyraethau yn rheolaidd. Serch hynny, nid yw athrawon yn gwneud defnydd digon cynhyrchiol o'r wybodaeth i addasu'r ddarpariaeth ar gyfer yr unigolion. Mae cynlluniau datblygu unigol addas yn cael eu llunio mewn ymgynghoriad â'r rhieni, disgyblion a staff. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn ystyried eu cynnwys yn ddigon gofalus wrth gynllunio'u gwersi. O ganlyniad, nid yw'r addysgu bob amser yn diwallu anghenion y disgybl yn llawn.

Mae'r ysgol wedi cryfhau gweithdrefnau olrhain cynnydd disgyblion yn ddiweddar er mwyn sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol. Mae hyn wedi arwain at ethos o gydweithio mwy agored a gweithredu'n fwy strategol ar gyfer gwelliant. Mae'r broses o osod targedau mwy realistig a heriol, yn enwedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, yn datblygu'n addas.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod rhieni'n derbyn gwybodaeth berthnasol am waith yr ysgol. Mae nosweithiau ar gyfer rhieni disgyblion meithrin ar ddechrau eu haddysg yn yr ysgol yn fodd effeithiol o rannu gwybodaeth a sicrhau trosglwyddo llyfn. Yn ogystal, mae gwybodaeth werthfawr yn cael ei rhannu gyda rhieni trwy, er enghraifft, y llawlyfr ysgol ac mewn nosweithiau dewis pynciau ar ddiwedd Blwyddyn 9. Mae rhieni'n derbyn adroddiadau pwrpasol am gynnydd eu plentyn yn rheolaidd, sydd yn rhoi darlun clir o'u cyrhaeddiad.

Mae athrawon yn cynllunio a darparu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol werthfawr sy'n datblygu agweddau moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae nifer o siaradwyr allanol yn cyfrannu'n fuddiol at ddealltwriaeth y disgyblion o ystod eang o faterion cymdeithasol, er enghraifft sgwrs ar hiliaeth a chydraddoldeb gan fardd o Jamaica, Yasus Afari. Mae'r ysgol yn datblygu gwerthoedd ysbrydol a moesegol yn addas, er enghraifft trwy gyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar themâu cyfoes a gwasanaethau boreol dan arweinaid gweinidog lleol.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Caiff iechyd corfforol ei hyrwyddo'n gyson trwy ystod fuddiol o weithgareddau allgyrsiol, er enghraifft rygbi, gymnasteg, pêl-rwyd a dawns. Mae nifer uchel o ddisgyblion yn mynychu'r gweithgareddau hyn sydd yn cael effaith bositif ar eu hiechyd. Mae cyfleoedd addas i ddisgyblion y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2 leisio barn ynglŷn â'u dysgu trwy gynnig mewnbwn i themâu'r dosbarth. Er bod cyfleoedd addas i ddisgyblion gyfrannu at fywyd yr ysgol trwy'r amryw gynghorau, prin yw'r cyfleoedd iddynt ddylanwadu ar agweddau sylfaenol fel yr addysgu. Mae'r ysgol yn paratoi disgyblion yn dda gogyfer â'r cam nesaf yn eu haddysg neu ar gyfer y byd gwaith. Er enghraifft, mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion Blwyddyn 10 rannu eu profiadau â disgyblion Blwyddyn 9 am eu dewisiadau. Gwneir defnydd llwyddiannus o siaradwyr gwadd i drafod gyrfaoedd lleol, er enghraifft ym maes coedwigaeth.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ymgymryd ag amrediad o weithgareddau i gyfrannu'n fuddiol i gefnogi elusennau lleol a chenedlaethol. Maent wedi casglu arian sylweddol tuag at elusennau fel y banc bwyd lleol, 'Mind' a 'Macmillan'.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella**

Mae'r pennaeth wedi sefydlu a chyfleu gweledigaeth glir ar gyfer Ysgol Bro Idris. Mae'r weledigaeth wedi ei seilio'n gadarn ar 'greu ysgol sy'n sicrhau fod pob dysgwr yn hapus a diogel ac yn cyrraedd ei lawn botensial yn addysgol a chymdeithasol.' Mae ganddi egni a brwdfrydedd ac mae wedi sefydlu ymdeimlad cryf o un tîm ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, er i arweinwyr sicrhau safonau da o ran cyflawniad disgyblion yn y cyfnod sylfaen, ac yng nghyfnod allweddol 2, nid ydynt wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau erbyn diwedd cyfnod allweddol 4.

Mae'r uwch dîm rheoli, sy'n cynnwys y pennaeth, y dirprwy bennaeth a'r penaethiaid ffês, yn cydweithio'n effeithiol er mwyn sefydlu darpariaeth flaengar ar draws ardal eang, ac i greu ethos o un ysgol. Maent wedi sefydlu strwythur rheolaethol priodol ar gyfer dyletswyddau strategol yr ysgol sy'n sicrhau arweiniad clir a chyson ar draws yr holl safleoedd. Mae gan yr uwch dîm rheoli gyfrifoldebau clir sydd wedi eu dosrannu'n synhwyrol, ac ar y cyfan, mae llinellau atebolrwydd yn eglur.

Mae'r penaethiaid safle a'r penaethiaid meysydd dysgu a phrofiad yn deall eu rolau'n drwyadl. Fodd bynnag, nid yw cyfrifoldebau dros arwain meysydd traws ysgol wedi eu diffinio'n ddigon clir. Felly, nid yw arweinwyr bob amser yn gweithredu'n ddigon cydlynus er mwyn sicrhau gwelliannau yn y ddarpariaeth.

Trwy eu gwaith cydwybodol gyda'r bwrdd llywodraethol cysgodol a'r corff llywodraethol cyfredol, mae'r llywodraethwyr wedi cefnogi'r ysgol yn llwyddiannus trwy broses heriol o sefydlu'r ysgol newydd. Maent yn rhannu'r weledigaeth ar gyfer datblygu ysgol pob oed lwyddiannus sy'n gwasanaethu ardal eang. Maent yn cydweithio'n agos ag arweinwyr, er enghraifft wrth graffu ar waith disgyblion i sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol am gryfderau'r ysgol a meysydd i'w gwella. Maent yn herio tanberfformiad yn briodol, pan fo angen.

Mae'r ysgol wedi sefydlu calendr o weithdrefnau addas ar gyfer hunanwerthuso agweddau pwysig o'i gwaith. Mae rhain yn cynnwys elfennau defnyddiol fel craffu ar lyfrau, dadansoddi data perfformiad a chynnydd disgyblion, arsylwadau gwersi, a chyfarfodydd monitro safonau. O ganlyniad, mae gan yr ysgol drosolwg cywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Yn ddiweddar, mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio'n fwriadus i wella safonau. Er enghraifft, mae'r cydweithio i gysoni dulliau cynllunio wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar y ddarpariaeth ar draws dosbarthiadau'r cyfnod sylfaen. Mae rhannu cyfrifoldebau cynllunio rhwng athrawon cyfnod allweddol 2 wedi cyfrannu'n gadarnhaol at gysondeb ym mhrofiadau dysgu'r disgyblion.

Yn gyffredinol, mae'r cynllun gwella yn gynhwysfawr ac yn crynhoi sut y bydd arweinwyr a staff yn mynd i'r afael ag anghenion datblygu'r ysgol. Mae'r gwaith wedi ei amserlennu'n briodol, ac yn amlinellu cyfrifoldebau a monitro clir. Mae meini prawf addas yn cael eu hadnabod ac mae proses eglur ar gyfer gwerthuso cynnydd. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio gwella yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar ddatblygu elfennau ymarferol addysgu fel gosod lefel her addas, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 3 a 4.

Mae'r ysgol wedi sefydlu diwylliant ac ethos o gefnogi dysgu proffesiynol pob un o'r staff yn addas. Mae cyfres o weithgareddau priodol yn cael eu cynnal i gynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Mae cyfleoedd rheolaidd i'r athrawon ddod at ei gilydd i rannu arfer dda yn hyrwyddo datblygiad ar bob lefel yn briodol. Er enghraifft, mae cyfleoedd buddiol i athrawon ymweld â'u cymheiriaid sy'n gweithio gydag oedrannau gwahanol er mwyn cysoni darpariaeth. Mae hyn yn cryfhau ymdeimlad o dîm ymysg y rhan fwyaf o staff.

Mae'r ysgol yn datblygu medrau arweinwyr canol trwy drefn mentora werthfawr a ddarperir mewn cydweithrediad â swyddog yr awdurdod lleol. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn briodol. Mae'r targedau personol yn canolbwyntio'n addas ar flaenoriaethau strategol yr ysgol ynghyd ag anghenion datblygiad unigolion.

Mae'r ysgol wedi creu cysylltiadau buddiol ag ysgolion eraill yn lleol ac yn ehangach er mwyn rhannu arferion da. Er enghraifft, maent yn cydweithio ar elfennau o'r ddarpariaeth gyda fforwm ysgolion pob oed dros Gymru.

Mae gan holl safleoedd yr ysgol amrediad addas o adnoddau. Mae'r pennaeth, rheolwr busnes a'r llywodraethwyr yn cydweithio'n llwyddiannus er mwyn sicrhau bod cyllideb yr ysgol yn cael ei defnyddio'n briodol. Maent yn blaengynllunio'n addas er mwyn gwario'r gwarged yn fuddiol a dyrannu cyllid tuag at gynnal staffio yn y tymor canolig. Mae lefelau staffio'r ysgol yn briodol ar gyfer cyflawni anghenion y cwricwlwm, gan gynnwys athrawon a chymorthyddion dysgu. Gwneir defnydd effeithiol a hyblyg o'i hadnoddau dynol ar draws y safleoedd, er enghraifft trwy

ddefnyddio athrawon a chymorthyddion ar fwy nag un safle yn ystod yr wythnos. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o grantiau, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, er mwyn cefnogi datblygiad medrau a lles y disgyblion.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/02/2020